CYNGOR CYMUNED LLANFIHANGEL Y PENNANT

**Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun y 13eg o Dachwedd 2023 am 7.00yh yn y Ganolfan, Abergynolwyn.**

Presennol; Cyng. Emrys Thompson, Elwyn Evans, Robert D Jones, Gwynedd Roberts, Eleri Puw, Steve Lewis, Dylan Jarman, Miriam Webb, Bethan Lawton (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. **Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Emrys Thompson**.

Ar ddechrau'r cyfarfod, croesawyd Jane a John Barraclough i son am y diweddaraf gyda Ysbyty Tywyn. Roeddynt yn mynd oddiamgylch Cynghorau Cymuned i gael cefnogaeth i'r ysbyty, yn bennaf i ail agor y ward gleifion yno, a chael cyhoeddusrwydd i Gyfarfod Cyhoeddus yn Neuadd Ysgol Uwchradd Tywyn ar yr 21ain o Dachwedd. Dosbarthwyd daflenni i bawb. Byddai prif swyddogion Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yno, ynghyd a Geoff Ryall- Harvey, Cyfarfwyddwr Rhanbarthol, Llais Cymru. Trafodwyd materion megis y trafferth i ricriwtio staff, prinder tai i weithwyr, beth fyddai'r galw yn y pen draw, y cynllun 'Tuag Adre' , a'r ffaith fod BCUHB mewn mesurau arbennig. Diolchwyd yn fawr iddynt am ddod atom.

2. Gwahoddwyd **ddatganiadau o ddidordeb** am faterion ar yr agenda, ond ni chafwyd unrhyw ddatganiad.

Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a** gynhaliwyd ar y 9fed o Hydref ar gynnig Cyng Eleri Puw a'i eilio gan Cyng Elwyn Evans.

4. **Materion yn codi**

a) **Torri gwair mynwentydd a'r cae chwarae** – nodwyd hysbyseb ddrafft oedd wedi ei baratoi gan y Clerc, a chytunwyd i hyn. Byddai angen danfon yr hysbyseb i Dail Dysynni, a dywedodd Cyng Beth Lawton y byddai yn helpu I'w roi ar facebook mudiadau lleol. Byddai'r Clerc a'r Cadeirydd yn ymweld a'r safle gyda'r rhai oedd yn mynegi diddordeb.

b) **Gwaith paentio ar offer yn y Cae chwarae** – roedd y Clerc wedi cysylltu gyda'r 3 a enwyd unwaith eto I ofyn am bris, ond un amcangyfrif yn unig oedd i law, sef Luke Genders, a chytunwyd i hyn. Roedd y pris yn £750 am lafur (5 diwrnod o waith) , a £200 am y paent. Gofynnwyd I'r Clerc gysylltu ag ef i gadarnhau, ac I gychwyn y gwaith tua cyfnod y Groglith 2024.

c) **Rheilffordd Talyllyn** – nodwyd y diweddaraf gyda cael wagen lechi ar gyrion y pentref, ac y byddai angen arian drwy prosiect llechi. Roedd angen cael pris gan Liz Porrett, ac yna ei gwahodd atom.

d) **Coeden yn difrodi wal** – nid oedd unrhyw ddiweddariad.

e) **Gwefan i'r Cyngor** – diolchwyd I'r Clerc am y gwaith, ac roedd pawb yn hapus iawn efo'r cynnwys

f) **Safle Treftadaeth** – adroddwyd fod cyfarfod wedi ei gynnal dros zoom, a bod yna chwilio am brosiectau.

g) **Bin baw cwn** – nodwyd fod hyn wedi ei ddatrys.

h) **Hyfforddiant Cynghorwyr –** amlinellwyd y cyrsiau diweddaraf, a beth oedd ar gael yn rhad ac am ddim i Gynghorwyr. Cytunodd Cyng Miriam Webb a Robert Jones fynd ar y cwrs ar y cod ymddygiad Modiwl 9 a oedd I'w gynnal ar yr 22ain o Dachwedd. Byddai'r Clerc yn trefnu hyn.

i) **Polisiau i'w mabwysiadu cyn eu rhoi ar y wefan – adroddwyd fod y p**olisiau canlynol wedi eu danfon allan I bawb ymlaenllaw, sef Cyfle Cyfartal, Rhyddid Gwybodaeth, Amgylcheddol, Diogelu Gwybodaeth a Data, ynghyd a pholisi Pryderon a Chwynion. Yn dilyn trafodaeth, ar gynnig Cyng Robert Jones a'I eilio gan Cyng. Elwyn Evans, a gyda chefnogaeth pawb, cytunwyd I'w rhoi ar y wefan, ond i'w hadolygu yn y Cyfarfod Blynyddol yn 2025. Nodwyd y gellid newid unrhyw fanylion eto. .

5. **Materion Cynllunio**

   Nid oedd unrhyw geisiadau I law ers y cyfarfod diwethaf.

6. **Materion Cyllid.**

   ***Penderfynwyd talu y canlynol;***

   Anfoneb H G Web Designs – cynllunio gwefan newydd - £310.

   Anfoneb Cyngor Gwynedd am archwilio mewnol - £318.

   Roedd cais am arian i law gan Radio Ysbyty Gwynedd a phenderfynwyd peidio cyfrannu.

   Nodwyd gyllideb ddrafft wedi ei pharatoi gan y Clerc yn barod at y drafodaeth y tro nesaf ynglyn a lefel y praesept ar gyfer 2024-25. Byddai yn cael ei cylchredeg cyn y cyfarfod nesaf. Nodwyd fod y Cyngor yn cadw arian wrth gefn ar gyfer gwelliannau i'r maes chwarae.

7. **Adroddiad Cynghorydd Beth Lawton (Cyngor Gwynedd)**

   Adroddwyd am y gwaith a'r cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd, a hefyd ymgynghoriad gyda'r Ambiwlans Awyr.

   Nodwyd fod posibilrwydd o doriadau enfawr yng nghyllideb Cyngor Gwynedd yn y flwyddyn nesaf.

   Nodwyd trefniadau gyda'r Goeden Nadolig yn Abergynolwyn ar gyfer 10fed o Ragfyr.

8.**.Adroddiad Cyng. Elwyn Evans , cynrychiolydd Un Llais Cymru.**

Nid oedd yna unrhyw adroddiad y tro yma.

**9.Gohebiaeth.**

a) Materion mynwent Llanfihangel y Pennant

- Roedd e-bost i law gan Benjamin Thomas, Aftercare Funeral Services, Tywyn, fod llwch y diweddar Suzanne Llywarch wedi eu claddu 13/11/23. Cadarnahwyd daliad o £100 i agor bedd y tro hwn, Yn y dyfodol, gwelwyd y dylid defnyddio Richard Griffiths I agor beddau llwch, ac mai dewis y Cyngor Cymuned yw pwy sy'n agor beddau.
- Nodwyd gohebiaeth yn cadarnhau y byddai claddu llwch y diweddar William Davies yn bedd y teulu ar Ddydd Sadwrn 9fed o Ragfyr. Roedd siec eisoes i law am £722

b) Nodwyd y gohebiaeth a ganlyn, a byddai'r Clerc y neu danfon oddiamgylch;

  - Gan PCSO Paula Stewart ynglyn a prosiect 'Drws agored I drosedd'
  - Gan Gyngor Gwynedd - Llysgenhadon Ifanc , Gwarchod Treftadaeth
  - Tim Llechi Cymru – Cyfarfod Blynyddol 2023 Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru
  - Tim Llechi Cymru – Cwestiynau digidol a sgiliau
  - Un Llais Cymru – ymgynghoriad strategaeth diogelwch ffyrdd.

10. **Unrhyw fater arall**

- Roedd y Cyng Gwynedd Roberts yn parhau I dorri mieri/tyfiant oddiamgylch biniau halen yn ol yr arfer, a diolchwyd yn fawr am hyn.
- Roedd angen sicrhau fod y biniau halen yn llawn ar gyfer y gaeaf, a byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.
- Roedd gwrych yn gor-dyfu ar Heol Llanegryn, ac yn amharu ar y rhai sy'n cerdded y pafin a allai fod yn beryglys.
- Cadarnhaodd yr holl Gynghorwyr y byddant yn hawlio y gydnabyddiaeth arferol cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Byddai'r Clerc yn paratoi y sieciau erbyn y cyfafod nesaf.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; Y GANOLFAN ABERGYNOLWYN NOS LUN 8fed Ionawr 2024 , 7.00y.h.**

**----------------------------------------------------------------------------------------------------------**

LLANFIHANGEL Y PENNANT COMMUNITY COUNCIL

Minutes of a Council meeting held on Monday evening the 13th of November 2023 at 7.00pm at the Ganolfan, Abergynolwyn.

Present; Cllrs. Emrys Thompson, Elwyn Evans, Robert D Jones, Gwynedd Roberts, Eleri Puw, Steve Lewis, Dylan Jarman, Miriam Webb, Bethan Lawton (Gwynedd Council) and Huw T Jones (Clerk)

1. A warm welcome was extended to everyone by Chairman Emrys Thompson.
At the start of the meeting, Jane and John Barraclough were welcomed to talk about the latest with Ysbyty Tywyn. They were going around Community Councils to get support for the hospital, mainly to re-open the patient ward there, and get publicity for a Public Meeting in the Tywyn High School Hall on the 21st of November. Leaflets were distributed to everyone. Betsi Cadwaladr Health Board chief officers would be there, along with Geoff Ryall-Harvey, Regional Director, Llais Cymru. Issues such as the difficulty in recruiting staff, shortage of housing for workers, what the demand would be in the end, the 'Tuag Adre' scheme, and the fact that BCUHB is in special measures were discussed. They were thanked for coming to the meeting.

2. Declarations of interest were invited for issues on the agenda, but no declarations were received.

It was noted that there was no request to have presentations from members of the public on an issue on the Agenda.
3. The minutes of the meeting held on the 9th of October were confirmed on the proposal of Cllr Eleri Puw and seconded by Cllr Elwyn Evans.
4. Matters arising

a) Cutting the grass of cemeteries and the playing field - a draft advertisement that had been prepared by the Clerk was noted, and this was agreed. The advertisement would need to be placed in Dail Dysynni, and Cllr Beth Lawton said she would help put it on local organizations' facebook. The Clerk and the Chairman would visit the site with those who expressed an interest.

b) Painting work on equipment in the Playground - the Clerk had contacted the 3 names once again to ask for a price, but only one estimate was to hand, that of Luke Genders, and this was agreed to. The price was £750 for labour (5 days work), and £200 for the paint. The Clerk was asked to contact him to confirm, and to start the work around Easter 2024.

c) Talyllyn Railway - the latest was noted with having a slate wagon on the outskirts of the village, and that money would be needed through a slate project. We needed to get a price from Liz Porrett, and then invite her to meet us.

d) Tree damaging a wall - there was no update.

e) Website for the Council - the Clerk was thanked for the work, and everyone was very happy with the content

f) Heritage Site - it was reported that a meeting was held over zoom, and that there was a search for projects.

g) Dog poo bin - noted that this has been resolved.

h) Councilor Training - the latest courses were outlined, and what was available free of charge for Councillors. Cllr Miriam Webb and Robert Jones agreed to go on the course on the code of conduct Module 9 which was to be held on the 22nd of November. The Clerk would arrange this.

i) Policies to be adopted before putting them on the website - it was reported that the following policies had been sent out to everyone in advance, namely Equal Opportunity, Freedom of Information, Environmental, Information and Data Protection, together with a Concerns and Complaints policy. Following discussion, on the proposal of Cllr Robert Jones and seconded by Cllr. Elwyn Evans, and with everyone's support, it was agreed to be put on the website, but to be reviewed at the Annual Meeting in 2025. It was noted that any details could be changed again.

5. Planning Matters

There were no applications received since the last meeting.

6. Finance Matters.

It was decided to pay the following;

H G Web Designs invoice - new website design - £310.

Gwynedd Council invoice for internal audit - £318.

There was a request for money from Radio Ysbyty Gwynedd and it was decided not to contribute.

A draft budget prepared by the Clerk was noted ready for discussion next time regarding the level of the precept for 2024-25. It would be circulated before the next meeting. It was noted that the Council keeps money in reserve for improvements to the playground.

7. Councilor Beth Lawton's report (Gwynedd Council)

The work and meetings of the Health Board were reported, and also a consultation with the Air Ambulance.

It was noted that there was a possibility of huge cuts in the Gwynedd Council budget in the next year.

Arrangements were noted with the Christmas Tree in Abergynolwyn for 10th December.

8..Cllr.'s Report. Elwyn Evans, representative of One Voice Wales.

There was no report this time.

9. Correspondence.

a) Matters of Llanfihangel y Pennant cemetery

• An email was received from Benjamin Thomas, Aftercare Funeral Services, Tywyn, that the ashes of the late Suzanne Llywarch were buried 13/11/23. A payment of £100 was confirmed to open a grave this time, In the future, it was seen that Richard Griffiths should be used to open graves for cremated remains, and that it is up to the Community Council who opens graves.

• Correspondence was noted confirming that the ashes of the late William Davies would be buried in the family grave on Saturday 9th December. A cheque had already been received for £722

b) The following correspondence was noted, and the Clerk would distribute;

• From PCSO Paula Stewart regarding the 'Open door to crime' project

• From Gwynedd Council - Young Ambassadors, Heritage Protection

• Welsh Slate Team – Annual Meeting 2023 North West Wales Slate Landscape World Heritage Site

• Team Llechi Cymru – Digital and skills questions

• Un Llais Cymru – road safety strategy consultation.

10. Any other matter

• Cllr Gwynedd Roberts continued to cut brambles/growth around salt bins as usual, and this was very much appreciated.

• It was necessary to ensure that the salt bins were full for the winter, and the Clerk would contact the Highways Department of Gwynedd Council.

• A hedge was overgrowing on Llanegryn Road, and obstructing those who walk the pavement which could be dangerous.

• All the Councilors confirmed that they will claim the usual remuneration before the end of the financial year. The Clerk would prepare the cheques by the next meeting.

DATE OF NEXT MEETING; Y GANOLFAN, ABERGYNOLWYN, MONDAY 8th January 2024, 7.00 p.m.

……………………………………………………………………..